

A32

Ymchwiliad i Fil Awtistiaeth (Cymru) / Inquiry into the Autism (Wales) Bill

Ymateb gan UCAC

Response from UCAC



Bil Awtistiaeth (Cymru)

Medi 2018

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Bil Awtistiaeth (Cymru)

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y fersiwn diweddaraf o Fil Awtistiaeth (Cymru).

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

- 1.1. Mae UCAC yn llwyr gefnogol i'r Bil ac i'w egwyddorion cyffredinol. Credwn fod gan y Bil y potensial i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl o bob oedran ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru, ac felly i wella ansawdd eu bywydau nhw a'u teuluoedd.
- 1.2. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod yn bryderus ynghylch un agwedd yn benodol, sef y diffyg darpariaeth ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r Gymraeg.
- 1.3. Mae UCAC, fel y mae eraill, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, wedi nodi mewn ymgynghoriadau blaenorol yr anawsterau o ran cael gwasanaethau a darpariaeth arbenigol, gan gynnwys asesiadau diagnostig, trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 1.4. Fel yr ydym wedi pwysleisio mewn ymgynghoriadau blaenorol, mae aros yn fud neu'n benagored ar fater y Gymraeg yn arwain at amwysedd ac ansicrwydd o ran darparu gwasanaethau. Ni ellid dibynnu ar ddeddfwriaeth arall (e.e. Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018) gan na fyddant yn berthnasol i bob agwedd o'r Bil hwn nac i bob agwedd o'r Strategaeth Awtistiaeth arfaethedig. Rhaid bod yn gwbl benodol ynghylch y cyfrifoldebau.
- 1.5. Mae cyfle yn y Bil i osod y safon yn uwch, ac i sicrhau cynnydd at y dyfodol, er budd pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, ac ni fyddem am weld colli'r cyfle hwnnw.
- 1.6. Ni theimlwn fod y ddarpariaeth yng nghymal 2(1)(g)(v) yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon a'r anawsterau hyn, gan ei fod yn rhy gyffredinol.
- 1.7. Teimlwn yn gryf iawn bod angen cyfeiriad(au) ar wyneb y Bil at ddyletswyddau o ran y Gymraeg mewn perthynas â gweithrediad y Strategaeth Awtistiaeth ei hun. Gallai'r cyfeiriadau hynny ddod yn un neu fwy o'r manau canlynol:
 - 2(1)(i) sy'n ymwneud â hygyrchedd i bob person y mae angen y gwasanaethau arnynt
 - 2(1)(l) sy'n ymwneud â dymuniadau personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a theuluoedd a gofalwyr y personau hynny
- 1.8. Yn ogystal, pwyswn arnoch chi i ystyried cynnwys cyfeiriad at y Gymraeg yn Adran 6: Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Er mwyn cael darlun cyflawn o'r sefyllfa sy'n wynebu pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, ac er mwyn sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol, credwn y dylid casglu data ynghylch:
 - anghenion a/neu ddewisiadau ieithyddol mewn perthynas â'r Gymraeg
 - unrhyw ddata perthnasol ynghylch effaith yr anghenion/dewisiadau hynny ar ddarpariaeth gwasanaethau, er enghraifft, a ddarparwyd yn y Gymraeg yn unol â'r terfynau amser sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth a/neu mewn canllawiau, neu a fu oedi neu anawsterau?
- 1.9. Heblaw am ddiffyg profion diagnostig cydnabyddedig yn y Gymraeg, mae diffyg cynllunio'r gweithlu, o safbwynt sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg, wedi bod yn broblem systemig, hirdymor. Hynny, yn anad dim, sy'n creu rhwystrau i wasanaethau hygyrch, addas ac amserol i siaradwyr Cymraeg ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Byddai sicrhau cyfeiriad at hynny yn y Bil yn gallu bod yn drawsnewidiol. Gellid edrych ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i weld enghraifft o sut medrin ymdrin â'r mater mewn ffordd sy'n cymryd y sefyllfa bresennol i ystyriaeth ond gan osod y cyfeiriad ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

- 1.10. O wneud y cyfeiriadau uchod ar wyneb y Bil, mi fyddai sicrwydd y byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth yn ymhelaethu arnynt.
- 1.11. Mae UCAC yn argyhoeddedig mai dim ond trwy wneud darpariaeth ar wyneb y Bil y gellir sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion ieithyddol fel elfen hanfodol o ofal, ac y gellir creu'r amodau fydd yn caniatáu'r 'cynnig rhagweithiol' sydd i fod yn ddisgwyliedig.
- 1.12. Tynnwn sylw at baragraff 552 yn y Memorandwm Esboniadol:

552. O'r herwydd, credir na fydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg, yn enwedig o ran hwyluso gwasanaethau a diagnosis a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymrwn mai camgymeriad yw hynny (yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd) – ond efallai nad yw'n bell o'r gwirionedd os na weithredir ar sail ein pryderon uchod.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



www.ucac.cymru